

Rheolau Celf?

Drwy gasglu ynghyd gelf hanesyddol a chyfoes, mae Rheolau Celf? yn edrych ar y berthynas rhwng yr hen a'r newydd. Mae Amgueddfa Cymru'n gartref i un o gasgliadau celf gorau Ewrop – 50,000 o weithiau a phum canrif o hanes. Ond hanes pwy? Ym 1667, dechreuodd yr Academi Ffrengig ddsbarthu testunau lluniau. Golygfeydd Beiblaidd neu hanesyddol oedd y gweithiau mwyaf mawreddog, ac ar waelod y domen oedd y fâs flodau. Roedd y Dilyniant Genre fel a ganlyn:

1. Paentio Hanesyddol

2. Portreadau

3. Golygfeydd Bob Dydd

4. Tirluniau

5. Bywyd Llonydd

Dylanwadodd y Dilyniant ar gelf y Gorllewin am ganrifoedd, gan lywio creadigrwydd artistiaid a'r hyn fyddai amgueddfeydd yn eu casglu – a'u cau allan. Mae Rheolau Celf? yn dilyn yr un drefn. Y bwriad yw edrych ar y Rheolau o'r newydd, a'u herio. Drwy weithio gydag artistiaid a phartneriaid cymunedol, mae elfennau o'r dehongliad wedi'u cyfrannu gan wahanol leisiau, fydd yn esblygu dros amser. Bydd y lleisiau'n cwestiynu'r straeon sy'n cael eu hadrodd, pwy sy'n eu hadrodd, a pa straeon sy'n cael eu celu.

Hanes

I Academi gelf yn y 17eg a'r 18fed ganrif, pinacl y byd celf oedd Paentio Hanesyddol. Gweithiau'n dangos golygfeydd o'r Beibl, mytholeg Groeg a Rhufain, ac eiliadau tyngedfennol yn hanes y genedl. Ym Mhrydain, daeth Paentio Hanesyddol yn fodd o gofnodi a dathlu concwest yr Ymerodraeth.

Pylodd y ffasiwn am Baentio Hanesyddol yn ail hanner y 19eg ganrif, a phrysuodd y dirywiad wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Ond yr un iaith weledol a themâu mawreddog sy'n ysbrydoli artistiaid hyd heddiw.

Bywyd Llonydd

Er bod Paentio Hanesyddol bellach yn hen hanes, mae Bywyd Llonydd yn ffynnu hyd heddiw. Ffurf a roddwyd yn wreiddiol ar waelod y domen gelfyddydol am nad yw hi'n darlunio'r ffurf ddynol.

Er ei bod yn bodoli cyn y 17eg ganrif, daeth yn boblogaidd yn y ganrif honno yng Ngweriniaeth yr Iseldiroedd. Roedd delweddau cyfoethog o bwysi blodau, bwyd a nwyddau eraill o bedwar ban byd yn dyst i ddylanwad rhyngwladol cynyddol y Weriniaeth.

Poblogeiddiwyd y ffurf gan artistiaid diwedd y 19eg ganrif. Heriwyd dealltwriaeth yr Academi o Gelf Gain a'i throi ar ei phen wedi dangos gweithiau sy'n gyfarwydd iawn i ni heddiw. Mae haenau cudd i'r cyfrwng hefyd. Gall delwedd gyfleu gofod, myfyrdod ac unigedd tra'n celu ystyr ddamhegol neu hanesyddol dwys.

Portreadau a Bywyd Bob Dydd

Cyn dyfodiad ffotograffiaeth yn y 1830au, roedd yn rhaid darlunio, paentio neu gerflunio portreadau o bobl – braint i'r cefnog yn unig. Mae portreadau hanesyddol yn darlunio pobl gyfoethog a phwerus, ac yn aml yn eu delfrydu.

Dynion yw'r mwyafrif llethol, ac roedd portreadau unigol o fenywod yn brin tan yr 20fed ganrif.

Yn y 17eg ganrif dechreuodd artistiaid baentio golygfeydd o fywyd bob dydd, gan roi blas i ni o fywydau pobl gyffredin. Gan taw aelodau anhysbys y 'werin datws' oedd yn y gweithiau, roedd y genre'n cael ei chyfri'n is na phortreadau o'r cyfoethog a'r pwerus. Nid oedd celf yn gynrychioliad teg o gymdeithas, ond gyda newidiadau cymdeithasol y 19eg ganrif esblygu'n raddol wnaeth y genre hefyd.

Heddiw, mae artistiaid modern a chyfoes yn defnyddio portreadau a golygfeydd bob dydd i ategu a thanseilio celf y gorffennol.

Tirlun

I'r Academiâu Celf, tirluniau oedd genre isa'r domen, ond mae'n genre sy'n parhau i ffynnu hyd heddiw. Mae hanes cyfoethog y cyfrwng yng Nghymru yn codi cwestiynau pwysig am hunaniaeth a lle, ac yn ein galluogi i drafod eithafion y modd y caiff ein cynefin ei ddefnyddio a'i bortreadu.

Yn niwedd y 18fed ganrif, roedd Cymru ar flaen y gad ym maes paentio tirluniau a gwerthfawrogi natur yn ei hanfod. Roedd diddordeb llenyddol ac artistig o'r newydd yn ei gorffennol Celtaidd, a denwyd artistiaid i'r Gogledd yn enwedig i ailddarganfod y tirlun gwyllt hwn.

Erbyn ail hanner yr 20fed ganrif roedd artistiaid yn defnyddio cyfryngau a thechnegau newydd. Trwy gyfrwng cerflunio, ffotograffiaeth a ffilm mae artistiaid cyfoes yn arddel y traddodiad wrth dynnu sylw at newid hinsawdd a defnydd tir.